# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 24 MEHEFIN 2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**, Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy) Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Sharon Warnes (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)
Garmon Williams (Uwch Archwilydd, Archwilio Cymru)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ail – ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2021 / 22**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2021/22**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Aled Wyn Jones

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021 fel rhai cywir

**7. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR PENSIYNAU YN CYMERADWYO DATGANIADAU CYFRIFON Y GRONFA A DERBYN YR ADRODDIAD PERTHNASOL GAN ARCHWILIO CYMRU**

***Eglurwyd, fel mater o drefn, mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw ystyried a mabwysiadu Trefniadau Gweithredu i adlewyrchu'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol, yn ei gyfarfod cyntaf o gyngor newydd ar ôl etholiad. (Mabwysiadwyd y fersiwn gyfredol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6/06/2017).***

***Yn dilyn cyfnod o adolygu trefniadau llywodraethu materion ariannol y Gronfa Bensiwn, cyflwynwyd addasiadau i'r Trefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chyfrifon 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd. Amlygwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn derbyn a chymeradwyo cyfrifon Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd, fel rhan o'i rôl fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".***

***Wedi ystyried y canllawiau a'r rheoliadau diweddaraf, ac adolygu'r trefniadau llywodraethu ymddengys yn gynyddol glir mai'r Pwyllgor Pensiynau, ac nid y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yw'r corff priodol i dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid yn unig mae'r gofyn cyfreithiol iddynt gael eu cynnwys gyda chyfrifon y Cyngor wedi cael ei ddiddymu, ond mae'r bwrdd cenedlaethol sy'n cynghori Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol hefyd yn argymell y dylai'r Pwyllgor Pensiynau ystyried y cyfrifon.***

***Tynnwyd sylw at y rheoliadau perthnasol ynghyd a'r trefniadau gweithredu drafft newydd sydd yn parhau i fod yn gyson a gofynion Mesur Llywodraeth Leol a'r Canllawiau Statudol. Adroddwyd nad oes anghysondeb gydag Adran 81 Mesur 2011, gan nad yw materion ariannol y Gronfa Bensiwn yn rhan o faterion ariannol Cyngor Gwynedd – mae arian y ddau endid yn gwbl ar wahân i'w gilydd.***

***Amlygwyd bod adroddiad cyfatebol wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 27 Mai 2021 lle cymeradwywyd addasiadau i'r trefniadau gweithredu er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon y gronfa bensiwn, ynghyd ag adroddiad perthnasol yr archwiliwr allanol. Ategwyd yn y Pwyllgor bod trefniadau a phenderfyniadau sydd yn ymwneud a phensiynau yn cael eu rheoli gan y Pwyllgor Pensiynau sydd yn eu tro yn cael eu craffu yn fanwl gan y Bwrdd Pensiwn. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr addasiad yn un synhwyrol.***

***Diolchwyd am yr adroddiad.***

***Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cadarnhawyd bod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud (27/5/21)***

*PENDERFYNWYD: Derbyn,*

- **Cynllun gwaith yr archwiliwr allanol ar Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.**
- **Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd, wedi iddynt gael eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid ond yn ddarostyngedig i archwiliad, a chyfle i herio eu cynnwys**

- **Adroddiad blynyddol gan yr archwiliwr ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (cyn diwedd mis Tachwedd yn 2021), a chyfle i herio cynnwys adroddiad perthnasol yr archwiliwr allanol, sef Archwilio Cymru**

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2021

Croesawyd Yvonne Thomas a Garmon Williams i'r cyfarfod. Cyflwynwyd cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn nodi'r gwaith y bwriedir ei gwblhau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt fel archwilwyr allanol. Cyfeiriwyd at yr angen i archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn gyda'r nod o adnabod camddatganiadau perthnasol ynghyd a'r risgiau sydd ynghlwm i'r archwiliad ariannol megis effaith covid-19. Cyfeiriwyd at gynnwys y rhaglen archwilio perfformiad gan gynnig braslun o'r gwaith sydd i'w gyflawni, y ffioedd a'r amserlen bwriadedig.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd parodrwydd i gydweithio. Gwerthfawrogwyd bod Tîm Archwilio Cymru yn rhugl yn y Gymraeg a bod hyn i'w groesawu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os oedd Archwilio Cymru wedi ystyried protocolau diogelwch siber gan awgrymu y gall materion diogelwch amlygu eu hunain i staff sydd yn gweithio o adre gan fod y wybodaeth 'bosib ar gael', nodwyd y bydd angen gwneud ymholiadau pellach i ganfod ymateb trylwyr ac y bydd Archwilio Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Churchman.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y cynllun**

## 9. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2021. Amlygwyd bod y cyfrifon (drafft) yn destun archwiliad sy'n cael ei weithredu gan Archwilio Cymru

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sy'n cael ei gyflwyno yn y cyfrifon. Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfrifon y llynedd, wedi eu harwyddo gyda pharagraff 'emphasis of matter' oherwydd yr ansicrwydd gyda phrisiadau eiddo. Amlygwyd bod y 4 Rheolwr Eiddo wedi datgan nad oes ansicrwydd eleni. Tynnwyd sylw at Gyfrif y Gronfa gan nodi blwyddyn arferol i gyfraniadau a buddion heb newid sylweddol. Er hynny, adroddwyd newid sylweddol mewn costau rheoli a cyfeiriwyd at nodyn 12a sy'n egluro mai cynnydd yn ffioedd perfformiad Ecwiti Preifat (Partners) oedd yn gyfrifol am y newid gyda pherfformiad cryf mewn 3 cronfa yn benodol. (Derbyniwyd eglurhad llawn gan y Rheolwyr pan heriwyd eu ffioedd).

Cyfeiriwyd at y cynnydd yn yr Incwm Buddsoddi (nodyn 13) o ganlyniad i incwm o fuddsoddiadau Ecwiti wrth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddechrau talu incwm a

enillwyd ers sefydlu ar holl is-gronfeydd y Bartneriaeth y mae'r gronfa wedi buddsoddi ynddynt. Cyfeiriwyd hefyd at y ffigwr o £565.5 miliwn sef y cynnydd yng ngwerth yr asedau ar y farchnad yn dilyn blwyddyn lewyrchus iawn (nodyn 14a).

Yng nghyd-destun y datganiad asedau net, tynnwyd sylw at y newid yn yr asedau buddsoddi (Nodyn 14a) sydd bellach wedi cyrraedd £2.5 biliwn gyda chynnydd sylweddol ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru wedi i gyfran o Fidelity ac Insight drosglwyddo i'r cronfeydd incwm sefydlog yn y flwyddyn.

Cymerodd y Pennaeth Cyllid y cyfle i ddiolch i'r Tîm Buddsoddi am eu hymroddiad i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon (drafft) wedi ei gwblhau o few yr amserlen. Nododd ei fod eisoes wedi ardystio'r cyfrifon drafft ac mai ymarfer da fyddai rhannu'r cyfrifon gyda'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i holi / cyflwyno sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn a fydd treuliau ariannol yn ymddangos yn gyson ymhen 2 flynedd (hynny yw ffioedd yn adlewyrchu nifer treuliau), nodwyd, gan fod nifer o gyfuniadau prynu a gwerthu anodd fyddai cymharu blwyddyn v blwyddyn, ond disgwylir gweld cysondeb yn y tymor hir.

Mewn ymateb i gynnydd sylweddol net o 0.6 biliwn, gofynnwyd petai modd adolygu'r strategaeth i ystyried pecynnau / buddion atyniadol i staff e.e., ymddeol yn gynnar. Nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd hawl gan y Gronfa na'r Cyflogwr i addasu'r buddion gan eu bod wedi eu gosod yn unol â chyflogau a nifer blynyddoedd gwaith. Ategwyd, yn Ebrill 2022 bydd gwaith yn dechrau ar adolygu'r prisiad teirblynyddol nesaf lle bydd modd, yn ddibynnol ar y canlyniad, addasu cyfranddaliadau cyflogwyr.

Mewn ymateb i sylw bod y llywodraeth yn addasu oed ymddeol gyda phobl yn talu i mewn yn hirach yn cael effaith ar yr arian sydd yn cael ei dalu i mewn i'r Gronfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod y ffaith yn cael ei ystyried wrth drafod y prisiad teirblynyddol, ond mai'r farchnad yw'r ffactor fwyaf dylanwadol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2020/21**

## 10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi bod penderfyniad blynyddol yn cael ei wneud i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/21 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Adroddwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 arhosodd gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £422,000 o log ar fuddsoddiadau oedd yn uwch na'r £400,000 a oedd yn y gyllideb. Ategwyd na wnaeth unrhyw sefydliad yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda hwy fethu â thalu.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod cydymffurfio llawn wedi digwydd ar wahân i'r datguddiad cyfraddau llog. Amlygwyd bod y datguddiad yma yna dangos effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog gan amlygu effaith difrifol y mae'r pandemig wedi ei gael ar enillion buddsoddiadau o gymharu ar hyn a ragwelwyd ddechrau Mawrth 2020 pan osodwyd lefel y cyfyngiad - cyn pandemig Covid 19. Ategwyd bod dychweliadau ar y cronfeydd wedi'i pwlio wedi adfer y gollyngiad llog.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 11. BUDDSODDI CYFRIFOL

Amlygodd y Pennaeth Cyllid bod etholwyr ym Môn, Conwy a Gwynedd wedi cyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor yn ymwneud a buddsoddi cyfrifol. Croesawyd derbyn y cwestiynau ymlaen llaw a gwerthfawrogwyd presenoldeb yr etholwyr yn y cyfarfod. Penderfynwyd ymateb i'r cwestiynau cyn trafod yr adroddiad.

**1. Pa dystiolaeth sydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bod eu polisi ymgysylltu mewn gwirionedd wedi newid ymddygiad y cwmnïau maent yn gyfranddalwyr ynddynt?**

Eglurwyd, fel Cronfa, y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr y gronfa gan dderbyn adroddiadau cynnydd ar eu gweithgareddau ymgysylltu. Nodwyd bod rheolwyr y gronfa yn weithgar iawn a'r cynnydd diweddar wedi bod yn foddhaol iawn gyda thrafodaethau agored yn cael eu cynnal ynglŷn â strategaeth hinsawdd rhai cronfeydd. Amlygwyd bod gan Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu sy'n cynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu.

Cyfeiriwyd at yr enghreifftiau canlynol o addasiadau ystyriol gan gwmnïau sydd o fewn portffolios y Bartneriaeth.

a) Archer Daniels Midland (ADM). Gwelwyd diffygion ym mholisïau ADM oedd yn cyfrannu at ddatgoedwigo parhaus a diffyg amddiffyn llystyfiant brodorol. Nodwyd bod Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu) wedi cynnal trafodaethau gydag ADM ers 2020 ac wedi cyflwyno cynnig ar ran y cyfranddalwyr ynglŷn â'u cyfraniad at ddatgoedwigo a chlirio llystyfiant brodorol yn Ne America. Ym mis Mawrth 2021, tynnwyd y cynnig yn ôl gan fod y cwmni wedi ymrwymo i:

- osod ymrwymiadau â therfyn amser i ddileu datgoedwigo erbyn 2030
- olrhain y gadwyn gyflenwi soi yn llawn erbyn 2022
- gynnwys llystyfiant brodorol yn eu Polisi Dim Datgoedwigo
- gyhoeddi protocol ymgysylltu â chyflenwyr

b) Enel Spa. Adroddwyd bod Enel Spa (cwmni ynni rhyngwladol o'r Eidal) yn weithgar yn y sectorau cynhyrchu a dosbarthu trydan. Wrth arwain ar ymgysylltu cydweithredol o dan y fenter Climate Action 100+, nodwyd bod Robeco wedi ymgysylltu sawl gwaith â rheolwyr gweithredol ac anweithredol y cwmni sydd wedi arwain at ddatblygu strategaeth uchelgeisiol i ddatblygu egni adnewyddol a digideiddio rhwydweithiau dosbarthu. Fel rhan o'r ymdrechion i gryfhau llywodraethiant cwmnïau ar faterion hinsawdd, llwyddodd Robeco i enwebu cyn Prif Swyddog Gweithredol Wind Power yn DONG Energy, i Fwrdd Enel, ynghyd â grŵp o fuddsoddwyr sefydliadol. Bydd y camau nesaf yn eu trafodaethau

ymgysylltu yn ceisio mynd i'r afael ar fwriad y cwmni i gyflawni targed net-sero erbyn 2050, a gosod targed tymor hir ar gyfer Allyriadau Scope 3

c) ING. Adroddwyd bod Banc ING (darparwr gwasanaethau ariannol yn yr Iseldiroedd), yn gosod ffocws cryf ar wasanaethau digidol ar gyfer gwasanaethau bancio safonol. Nodwyd, yn 2018 y cyhoeddodd ING setliad dirwy o 775 miliwn euro oherwydd eu methiant i ganfod materion gwyngalchu arian rhwng 2012 a 2016, ac yn gynharach yn y flwyddyn diddymodd y bwrdd goruchwylio eu cynnig i gynyddu lefelau tâl gweithredol ar ôl pwysau cymdeithasol. Amlygwyd bod Robeco wedi cynnal cyfarfodydd gyda Chadeirydd y Bwrdd i asesu cryfderau a gwendidau ING ac wedi cysylltu gyda'r Buddsoddwyr i geisio adolygu fframwaith rheoli risg. Awgrymwyd penodi cyfarwyddwr annibynnol i'r Bwrdd yn 2019, a pharhau i ganolbwyntio ar oruchwyliaeth annibynnol bellach.

Yn ogystal, nodwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithio gyda Chronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol eraill trwy LAPFF sydd yn hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i amddiffyn gwerth tymor hir cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol. Adroddwyd bod y Fforwm yn ymgysylltu'n uniongyrchol â channoedd o gwmnïau drwy adeiladu perthynas iach a chynnal deialog agored ynghylch cyfrifoldeb corfforaethol yn y meysydd o stiwardiaeth, risg hinsawdd, risg gymdeithasol a risg llywodraethu. Ategwyd bod LAPFF yn cydnabod bod 'newid yn yr hinsawdd yn risg buddsoddi sylweddol a brys', ac ystyriwyd LAPFF yn fforwm defnyddiol iawn i sicrhau effaith gadarnhaol - enghreifftiau diweddar o ymgysylltu gyda Shell, Mitsubishi UFJ Financial Group a Sainsbury.

Gwnaed sylw pellach bod ymddwyn fel 'cyfaill beirniadol' yn fodd o ysgogi newid ac ystyriwyd ymgysylltu fel y dull gorau o geisio newidiadau.

**2. A yw Cronfa Pensiwn Gwynedd wedi edrych yn fanwl ar fuddsoddi cyfran o'r gronfa mewn prosiectau lleol?**

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid, er yn aelod weddol newydd ar y Pwyllgor Pensiynau, bod y mater o fuddsoddi mewn prosiectau lleol yn un sy'n codi yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Adroddwyd, fel cronfa bensiwn unigol ac yn genedlaethol fel PPC bod nod cyffredin o fuddsoddi'n lleol, ac yn genedlaethol yng Nghymru. Cyfeiriwyd at gyfleoedd posib sydd yn cael eu hystyried ynghyd a derbyn y gellid gwneud mwy o fuddsoddi effeithiol yng Nghymru.

- prosiectau adnewyddadwy a chymunedol ledled Cymru
- prosiectau cais twf eraill (bargen y ddinas).

Sylwadau pellach i'r ymateb:

- bod buddsoddi yn lleol yn agos at galonnau yr Aelodau
- bod angen diffiniad o'r gair 'lleol' - angen gwahaniaethu rhwng lleol a phlwyfol. Y byd yn llai, cysylltiadau yn well ac felly 'lleol' yn anodd ei ddiffinio
- bod ymuno a chronfa PPC wedi cryfhau'r gobaith o fuddsoddi yn lleol

3. A yw Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystyried risgiau 'stranded assets' o ystyried bod datganiad diweddar gan yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol yn nodi'r angen i atal pob datblygiad tanwydd ffosil newydd eleni?

Mewn ymateb, eglurwyd y cyfyngiadau i geisio osgoi cynhesu byd-eang ynghyd a sut mae'r economi yn symud o ynni fel glo, olew a nwy i ddefnyddio ynni adnewyddol gyda llywodraethau yn argymell cwmnïau i leihau allyriadau carbon. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd yn llwyr ymwybodol o'r risgiau hyn a gyda chymorth ymgynghorwyr y Gronfa, yn ceisio sicrhau bod y rheolwyr asedau, sy'n

dewis y stociau, yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n arallgyfeirio eu busnesau tuag at ynni adnewyddol, fel bod y Gronfa yn llai agored i risg. Nodwyd bod y dewis o gwmnïau y mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn buddsoddi ynddynt yn cael ei fonitro yn barhaus a'i herio pan fydd angen gan y Pwyllgor a'r ymgynghorwyr.

Yn ychwanegol, atgoffwyd yr Aelodau bod gan PPC Gronfa Global Opportunities, strategaeth datgarboneiddio sy'n eithrio glo, oherwydd fe'i hystyrir fel "stranded asset" - glo ydi'r ffynhonnell ynni lleiaf effeithlon o ran CO2, felly ceisir osgoi glo.

**4. A fydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gosod amserlen ar gyfer dargyfeirio llwyr cyn**
**Cynhadledd Hinsawdd COP26 ym mis Tachwedd 2021**

Adroddwyd mai prif nod Cynhadledd COP26 yw:

'*Sicrhau sero net byd-eang erbyn canol y ganrif a chadw o fewn cyrraedd 1.5 gradd' gan 'ofyn i wledydd ddod ymlaen â thargedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau 2030 sy'n cyd-fynd â chyrraedd sero net erbyn canol y ganrif'*

Er mwyn cyflawni'r targedau estynedig hyn, bydd angen i wledydd:
- gyflymu'r cyfnod diddymu glo
- lleihau datgoedwigo
- gyflymu'r newid i gerbydau trydan
- annog buddsoddiad mewn ynni adnewyddol.

Eglurwyd, fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn ei bod yn hanfodol cynllunio'n briodol, gan weithredu a dylanwadu lle bo hynny'n bosibl er budd yr amgylchedd. Nodwyd bod gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr ac felly nid yw'n gwyro am resymau anariannol yn unig. Golygai hyn y bydd penderfyniadau i fuddsoddi neu beidio mewn cwmni penodol neu fath o ased yn seiliedig ar y gallu i gynhyrchu enillion tymor hir cynaliadwy ar gyfer y gronfa, neu rywbeth a fyddai'n cael ei ddylanwadu gan ddull y bydd cwmni'n ei gymryd tuag at newid yn yr hinsawdd.

Nodwyd fod y mater ynglŷn â bod yn berchen ar gwmnïau tanwydd ffosil yn fwy cymhleth ei naws na dadfuddsoddi uniongyrchol. Tra bod dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil yn lleihau'r sylw ar y gronfa bensiwn, nid yw dadfuddsoddi yn ei hun yn cyfarch problemau carbon byd-eang. Ystyrir rhai y bydd tanwydd ffosil y parhau fel rhan hanfodol o'r gymysgedd ynni drwy gefnogi twf economaidd ac incwm drwy'r byd i'r dyfodol. Cyfeiriwyd at enghraifft lle mae eu defnydd mewn cynhyrchu a gosod tyrbinau gwynt - byddai gwaredu cwmnïau tanwydd ffosil yn debygol o waredu'r cwmnïau ynni gorau sy'n buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddol. Dyma'r cwmnïau sydd yn cefnogi ac yn gosod cyfeiriad a gyrru'r rhaglen trawsnewid ynni. Nodwyd bod ymgysylltu yn fodd mwy effeithiol o annog newidiadau yn hytrach na dadfuddsoddi yn llwyr gan ei fod yn caniatáu i berchnogion asedau megis Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC ymgymryd â pherchnogaeth weithredol a chynnal perthynas tymor hir ar faterion fel hyn.

Bydd y Gronfa yn herio'r rheolwyr buddsoddi yn rheolaidd ar y camau maent yn cymryd ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu gan geisio dargyfeirio o danwydd ffosil yn gyffredinol fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i leihau allyriadau carbon ar draws pob sector. Ategwyd bod y Gronfa'n datblygu ei strategaeth tymor hwy ar gyfer lleihau allyriadau carbon sydd yn gyson â gofynion disgwyliedig y Task Force for Climate-Related Disclosures (Tasglu Datgeliadau Hinsawdd Cysylltiedig) (TCFD).

Cyfeiriwyd at y camau sydd eisoes wedi ei cymryd i leihau allyriadau carbon:

- Cronfa Carbon Isel Black Rock (12% o Gronfa Gwynedd) - cronfa carbon isel pellach wedi ei ddatblygu sydd yn sgrinio tanwydd ffosil cyn yr optimeiddio carbon isel, ac felly yn lleihau allyriadau carbon ymhellach o 44% (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 14/10/2020).
- Cronfa Global Growth (17% o Gronfa Gwynedd) - ymdrechion gan reolwyr buddsoddi o fewn y gronfa i leihau ôl traed carbon. Baillie Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dadfuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 21/01/2021) a Pzena wedi penderfynu gwerthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% (31/12/20) o allyriadau carbon y gronfa benodol yma.
- Cronfa Global Opportunities (17% o Gronfa Gwynedd) – PPC wedi gweithredu 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments sy'n lleihau'r ôl-troed carbon o 25%. Bydd posib gweithredu'r un 'overlay' ar drosglwyddiad nesaf i gronfa marchnadoedd datblygol PPC (3% o gronfa Gwynedd) yn Hydref 2021.
- Russell Investments (Darparwr Datrysiad Rheoli Buddsoddiadau PPC) – wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050.
- Meincnod ESG GRESB – meincnod byd eang ar gyfer ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol o fewn y maes eiddo. Cronfa Gwynedd gyda dyraniad 10% i fuddsoddiadau mewn eiddo gyda rheolwyr eiddo perthnasol, UBS a Black Rock wedi cadw safle rhif 1 a 2 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer eu sgôr 'ESG GRESB' yn 2020.
- Ymgysylltu â rheolwyr - y Gronfa'n ymgysylltu â rheolwyr, e.e. yn gwirio eu cofnodion pleidleisio, i geisio dylanwadu ar newid yn y cwmnïau y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt, yn enwedig PPC a Black Rock

Er nodwyd bod Russell Investments (Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddi PPC) wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050, nid yw Cronfa Gwynedd wedi ymrwymo i'r datganiad yma nac yn argyhoeddedig y dylid gosod targed mor uchelgeisiol a diffiniol.

Amlygwyd bod camau positif wedi eu gwneud o fewn y Gronfa ynglŷn â materion yn ymwneud a'r hinsawdd a'u bod wedi ystyried yr opsiynau o ddifrif. Derbyniwyd y gellid gwneud mwy, ond camau positif eisoes wedi eu cymryd gyda bwriad i barhau fel yn briodol, drwy bwyso a mesur yn ofalus. Ategwyd bod egwyddorion Ffordd Gwynedd yn cael eu gweithredu sy'n annog newid meddylfryd i geisio'r canlyniad gorau.

Diolchwyd am y cwestiynau ac am eu cyfraniad i'r Pwyllgor. Diolchwyd am y diweddariad i'r datganiad - drwy gynllunio yn briodol bydd modd cymryd camau amserol wrth fuddsoddi'n gyfrifol fydd, o ganlyniad yn dylanwadu buddion ein hamgylchedd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad ac i'r Cadeirydd lofnodi'r datganiad**

## 12. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau ar waith y Bartneriaeth, perfformiad y Gronfa ynghyd a datblygiadau sydd ar y gweill

ers sefydlu yn 2017. Erbyn 31ain Mawrth 2021, adroddwyd bod 81% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru - 54% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd drwy *Teams* yn caniatáu i faterion gael eu trafod yn amserol ac ymddengys hyn yn effeithiol gyda phethau yn symud ymlaen yn gynt. Adroddwyd bod y trosglwyddiadau rhwydd wedi eu gweithredu a gwaith bellach yn cael ei wneud ar faterion sy'n ymddangos yn fwy heriol, megis Marchnadoedd Preifat. Ategwyd bod cefnogaeth i'r gwaith o gyfuno asedau yn y categori yma yn cael ei wneud gan Hymans gyda thrafodaethau busnes parhaus yn cael eu trefnu i benderfynu ar y strwythur a'r mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Tynnwyd sylw at y drafodaeth ynglŷn â phroses penodi cynrychiolydd Aelodau ar gyfer y Cydbwyllgor Llywodraethu. Amlygwyd mai'r argymhelliad a gynigwyd mewn adroddiad i'r Cydbwyllgor (24ain o Fawrth 2021) oedd y dylai pob Bwrdd Pensiwn lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyfarch gofynion y swydd ddisgrifiad. Byddai'r broses penodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp a fyddai'n argymell enwebiad i'w gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mynegodd y Pennaeth Cyllid y byddai yn cefnogi achos Osian Richards (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd) fel aelod ar y Cydbwyllgor.

Nodwyd y bydd y broses penodi yn cymryd hyd at chwech i ddeuddeg mis gan fod angen cymeradwyaeth Cyngor Llawn pob awdurdod cyfansoddiadol.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nododd y Cadeirydd bod sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn gydag elfen dychweliadau a chydweithio da yn ennyn buddion i'r Gronfa. Mynegodd falchder bod yn rhan o'r Gronfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 13. DIWYGIADAU I'R DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu'r angen i'r Pwyllgor gymeradwyo diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn newidiadau i Reoliadau CPLlL 2013 a diweddariad achos Llys Goodwin. Daw'r argymhelliad gan actiwari'r Gronfa sef Hymans Robertson oedd wedi awgrymu'r newidiadau. Amlygwyd bod newidiadau mewn tri rhan o'r datganiad

- **Adolygiad cyfraniad** - yr addasiad yn caniatáu i'r Gronfa ail gyfrifo cyfraniadau tu allan i'r prisiad ffurfiol o dan yr amgylchiadau canlynol: os bu newid i ymrwymiadau (liabilities) y cyflogwr, bu newid i gyfamod (guarantee) y cyflogwr; neu ar gais y cyflogwr
- **Trefniadau ymadael** – yr addasiad yn caniatáu mwy o hyblygrwydd pan fydd cyflogwr eisiau gadael y gronfa. Os yw'r cyflogwr mewn diffyg, mae'r opsiynau wedi ei ffurfioli e.e, lledaenu'r taliad dros nifer o flynyddoedd neu ymrwymo i Gytundeb Dyled Gohiriedig (Deferred Debt Agreement).
- **Achos Llys Goodwin** - ble roedd aelodau neu oroeswyr yn destun gwahaniaethu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Disgwylir i'r effaith ar Achos Goodwin fod yn fach iawn ar ymrwymiadau'r Gronfa ac yn fater gweinyddol i raddau helaeth. Er hynny, noder yr addasiad yn y strategaeth er eglurder.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am arweiniad Hymans Robertson mewn maes technegol iawn. Derbyniwyd bod yr ymateb hefyd yn un technegol ac efallai

uwchlaw dealltwriaeth rhai o'r Aelodau, ond gyda disgwyliad bod y swyddogion yn gweithredu yn gywir.

Nodwyd hefyd bod defnydd lliwiau yn yr adroddiad yn fodd effeithiol iawn o amlygu'r newidiadau.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn newidiadau i Reoliadau CPLIL 2013 a'u diweddaru o Achos Llys Goodwin**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido Diwygiedig**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.35 y.h.

**CADEIRYDD**